# Gwasanaethau Parcio Dinas Abertawe
# Adroddiad Blynyddol 2020-21

## 1. Rhagarweiniad

1.1 Mae'r ddogfen hon yn adrodd ar berfformiad Gwasanaethau Parcio Cyngor Abertawe rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, blwyddyn ariannol 2020 / 2021. Mae'r adroddiad yn nodi gwybodaeth ynghylch perfformiad gweithrediadau gorfodi parcio ym meysydd parcio ac ar y stryd.

1.2 Gan weithio o dan y pwerau sy'n deillio o Ran 6 Deddf Rheoli Traffig 2004 ymgymerir â gweithrediadau parcio fel a ganlyn:

1.3 Gweithredir gorfodi rheoliadau parcio gan Swyddogion Gorfodi Sifil (SGS) sy'n cyflwyno hysbysiadau tâl cosb (HTC) naill ai ar y cerbyd neu i'r person y credir y mai nhw oedd y gyrrwr adeg y tramgwydd. Mewn sefyllfaoedd pan fydd ymddygiad y gyrrwr tuag at y SGS yn atal y swyddog rhag ei gyflwyno yn y modd hwn, neu pan fydd y gyrrwr yn gyrru i ffwrdd cyn i'r swyddog gael cyfle i gyflwyno'r hysbysiad, bydd yr hysbysiad yn cael ei gyflwyno drwy'r post. Gall tramgwyddau gael eu cofnodi gan ein cerbyd gorfodi camera teledu cylch cyfyng, caiff y tramgwyddau eu hadolygu wedyn gan SGS cymwysedig a bydd yr hysbysiadau cosb yn cael eu danfon drwy'r post at geidwad cofrestredig y cerbyd.

1.4 Mae Taliadau Cosb yn amrywio yn dibynnu ar lefel y tramgwydd. Mae tramgwyddau lefel uwch yn golygu cosb o £70 neu £35 os yw'n cael ei dalu o fewn 14 diwrnod, tra bod tramgwyddau lefel is yn golygu cosb o £50 neu £25 os yw'n cael ei dalu o fewn 14 diwrnod. Pennir lefel y cod tramgwydd yn Neddf Rheoli Traffig 2008 ac nid gan y Cyngor. Er enghraifft, byddai parcio mewn lleoliad sydd wedi'i wahardd, megis ar linell felen, yn cael ei ystyried yn dramgwydd lefel uwch a byddai aros yn hirach na chaniateir, mewn lleoliad lle caniateir parcio megis cilfach amser aros cyfyngedig, yn cael ei ystyried yn dramgwydd lefel is. Cewch isod restr lawn o dramgwyddau fesul categori yn yr adroddiad ar orfodi oddi ar y stryd (meysydd parcio) a gorfodi ar y stryd.

Rhaid ymateb i sylwadau ffurfiol o fewn 56 diwrnod, er nod y Cyngor fydd ymateb o fewn 14 diwrnod.

1.5 Os gwrthodir apêl ffurfiol yna mae gan geidwad cofrestredig y cerbyd hawl i apelio i'r Tribiwnlys Cosb Traffig o fewn 28 diwrnod ar ôl derbyn yr hysbysiad gwrthod.

Yna bydd dyfarnwyr annibynnol y Tribiwnlys yn ystyried rhinweddau'r achos ynghyd â thystiolaeth y ddau barti ac yn penderfynu a ddylid gorfodi neu ganslo'r HTC. Bydd eu penderfyniad fel arfer yn derfynol oni bai ei fod yn cael ei herio yn yr Uchel Lys.

Anaml y bydd hawlio costau ond gall hynny ddigwydd mewn amgylchiadau eithriadol lle mae'r naill barti neu'r llall wedi ymddwyn yn flinderus.

Gellir cyflwyno apêl ar seiliau cyfyngedig yn unig:-

- Ni ddigwyddodd y tramgwyddo
- Bu'r gosb yn fwy na'r swm a oedd yn berthnasol o dan yr amgylchiadau
- Nid yw'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig perthnasol yn ddilys (nid yw'n gymwys ar gyfer cyffyrdd sgwâr neu arosfannau bysiau)
- Bu amhriodoldeb gweithdrefnol gan y Cyngor
- Danfonwyd cosb drwy'r post pan nad oedd gan y Cyngor hawl i'w danfon drwy'r post
- Nid y chi oedd y perchennog / roedd y cerbyd wedi'i hurio o dan gytundeb hurio cymwys
- Cymerwyd y cerbyd heb ganiatâd: e.e. fe'i dygwyd
- Mae'r gosb eisoes wedi'i thalu

Does gan ddyfarnwyr mo'r pwerau i ganiatáu apêl a wnaed am resymau eraill, megis apêl am ostyngiad.

Am fwy o wybodaeth gallwch gyfeirio at dudalen we'r Tribiwnlys: www.trafficpenaltytribunal.gov.uk

Ceidwad cofrestredig y cerbyd sy'n gyfrifol am dalu hysbysiadau tâl cosb. Cyfeirir hysbysiadau sydd heb eu talu at y Ganolfan Gorfodi Traffig yn Llys Sirol Northampton sy'n dyroddi gorchmynion adennill dyledion. Trosglwyddir y gorchmynion hyn i Asiantaeth Gorfodi sydd â'r grym i adennill y ddyled ar ran y Cyngor.

1.6 Ar wahân i ofynion deddfwriaethol Deddf Rheoli Traffig 2004 rhaid i'r gwasanaeth sicrhau cydymffurfio'n llawn â'r Offerynnau/Rheoliadau Statudol canlynol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ac sydd ar gael yn http://www.legislation.gov.uk

1.7 Rheoliadau Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013.

Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Sylwadau ac Apelau) (Cymru) 2013.

Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Dyfeisiadau a Gymeradwyir) (Cymru) 2013.

Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Canllawiau ar Lefelau Taliadau) (Cymru) 2013.

Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Sylwadau ac Apelau) Cerbydau a Symudwyd Ymaith (Cymru) 2013.

Rheoliadau Swyddogion Gorfodi Sifil (Gwisgo Lifrai) (Cymru) 2008.

Rheoliadau Symud Ymaith a Gwaredu Cerbydau (Diwygio) (Cymru) 2008.

1.8 Rhaid i’r gwasanaeth sicrhau bod ein Hasiantau Gorfodi, sy’n cael eu penodi i adennill hysbysiadau tâl cosb, yn cydymffurfio â gofynion:
Rheoliadau Cymryd Rheolaeth o Nwyddau 2013: a

Rheoliadau Cymryd Rheolaeth o Nwyddau (Ffioedd) 2014

Mae’r rheoliadau hyn ar gael yn http://www.legislation.gov.uk

1.9 Cyn y gall unrhyw orfodi ddigwydd rhaid cyflwyno Gorchymyn Rheoleiddio Traffig a fydd yn nodi’n glir maint y cyfyngiad sydd ar waith. Gellir dod o hyd i’r Gorchmynion trwy ddilyn y ddolen ganlynol ar wefan y Tribiwnlys Cosb Traffig: http://tro.parking-adjudication.gov.uk

1.10 Mae’r canllawiau statudol i awdurdodau lleol ar orfodi sifil tramgwyddau parcio a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gyhoeddi adroddiad blynyddol. Mae’r adroddiad hwn yn rhan bwysig o atebolrwydd a bydd y tryloywder a geir gan adroddiadau rheolaidd a chyson yn gymorth i Aelodau etholedig ac i’r cyhoedd ddeall y prosesau a fabwysiadwyd i reoli parcio trwy hyd a lled ardal Abertawe.

1.11 Rhaid i’r gwasanaeth sicrhau bod ein Hasiantau Gorfodi, sy’n cael eu penodi i adennill hysbysiadau tâl cosb, yn cydymffurfio â gofynion:
Rheoliadau Cymryd Rheolaeth o Nwyddau 2013: a Rheoliadau Cymryd Rheolaeth o Nwyddau (Ffioedd) 2014

Mae’r rheoliadau hyn ar gael yn http://www.legislation.gov.uk

1.9 Cyn y gall unrhyw orfodi ddigwydd rhaid cyflwyno Gorchymyn Rheoleiddio Traffig a fydd yn nodi’n glir maint y cyfyngiad sydd ar waith. Gellir dod o hyd i’r Gorchmynion trwy ddilyn y ddolen ganlynol ar wefan y Tribiwnlys Cosb Traffig: http://tro.parking-adjudication.gov.uk

1.10 Mae’r canllawiau statudol i awdurdodau lleol ar orfodi sifil tramgwyddau parcio a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gyhoeddi adroddiad blynyddol. Mae’r adroddiad hwn yn rhan bwysig o atebolrwydd a bydd y tryloywder a geir gan adroddiadau rheolaidd a chyson yn gymorth i Aelodau etholedig ac i’r cyhoedd ddeall y prosesau a fabwysiadwyd i reoli parcio trwy hyd a lled ardal Abertawe.

1.11 Mae tudalennau canlynol yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch gweithgareddau ar y stryd ac oddi ar y stryd yn ystod y cyfnod adrodd ac yn cwmpasu hysbysiadau tâl cosb a gyflwynwyd, gohebiaeth y deliwyd ag ef gan gynnwys apelau a chwynion, lefelau staffio a manylion gwariant ac incwm. Cewch fwy o wybodaeth ynghylch Gwasanaethau Parcio ar ein gwefan yn http://www.abertawe.gov.uk/parcio sy’n cynnwys dolen i Adroddiadau Blynyddol blaenorol.

## 2. Parcio Oddi Ar y Stryd

2.1 Mae gan Gyngor Abertawe gyfanswm o 53 o feysydd parcio wedi eu rhestru yng 'Ngorchymyn Cydgrynhoi Cyngor Abertawe (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd) (Talu ac Arddangos) 2008'.

2.2 Mae tri maes parcio aml-lawr Canol y Ddinas yn rhai talu wrth ymadael tra bod pob maes parcio arall yn rhai talu ac arddangos. Yn ogystal, mae dau faes parcio a theithio wedi'u lleoli ar gyrion y ddinas, sy'n gweithredu fel meysydd parcio talu ar droed.

2.3 Yn ogystal â'i rôl gorfodi, mae'r adran Gwasanaethau Parcio yn gyfrifol am weinyddu a chynnal a chadw pob maes parcio yn effeithiol.

2.4 Mae 86 gorsaf talu wedi'u lleoli ledled y ddinas, ac mae'r rhain yn cael eu cynnal a chadw gan staff sydd hefyd yn gyfrifol am gasglu a chysoni'r arian o'r peiriannau hyn. Yn ystod blwyddyn gyllideb 2020/21 roedd hyn yn gyfanswm o £1,705,293.89 gan gynnwys tocynnau tymor, parcio staff ac incwm amrywiol arall.

2.5 Mae'r tâl a godir am feysydd parcio yn amrywio, gyda meysydd parcio wedi'u dynodi'n 'arhosiad hir', 'arhosiad byr', 'blaendraeth', 'maestrefol' a 'chanol y ddinas'. Yn ogystal, mae 12 maes parcio ar hyn o bryd yn rhad ac am ddim. Mae 2 faes parcio wedi'u dynodi ar gyfer deiliaid tocynnau tymor yn unig ac mae un sydd at ddefnydd deiliaid bathodynnau glas yn unig.

2.6 Yn ystod y cyfnod adrodd cyflwynwyd cyfanswm o 6,265 o hysbysiadau tâl cosb mewn perthynas â thramgwyddau a gofnodwyd yn ein meysydd parcio. Mae Tabl 1 isod yn nodi'r gwahanol dramgwyddau wedi'u rhannu'n ôl y tramgwyddau cyfradd uwch (£70) a'r tramgwyddau cyfradd is (£50).

**Tabl 1**

| Cod y Tramgwydd | Disgrifiad o'r Tramgwydd | Nifer y HTC (Hysbysiadau Tâl Cosb) a gyflwynwyd |
|---|---|---|
| **Oddi ar y Stryd – Cyfradd Uwch** | | |
| 70 | Parcio mewn ardal lwytho | 23 |
| 81 | Parcio mewn ardal gyfyngedig | 90 |
| 85 | Parcio mewn man trwydded | 207 |
| 87 | Parcio person anabl | 463 |
| 92 | Rhwystr | 118 |
| | **Cyfanswm** | **901** |
| | | |
| **Oddi ar y Stryd – Cyfradd Is** | | |

| | | |
|---|---|---|
| 80 | Parcio'n hirach nag a ganiateir | 14 |
| 82 | Parcio ar ôl i'r amser y talwyd amdano ddod i ben | 352 |
| 83 | Parcio mewn maes parcio heb arddangos tocyn talu ac arddangos, taleb neu gloc parcio dilys yn glir | 3,883 |
| 84 | Parcio a thalu swm ychwanegol i ymestyn yr amser parcio tu hwnt i'r amser a brynwyd yn wreiddiol | 1 |
| 86 | Heb barcio'n gywir oddi fewn i farciau'r gilfach neu'r lle parcio | 1,013 |
| 93 | Parcio mewn maes parcio pan ar gau | 101 |
| | **Cyfanswm** | **5,364** |
| | | |
| **Cyfradd Uwch ac Is Oddi ar y Stryd** | **Prif Gyfanswm** | **6,265** |

## 3. Parcio Ar y Stryd

3.1 Mae amrywiaeth y gorchmynion parcio mewn grym sy'n ymwneud â chyfyngiadau parcio ledled Dinas a Sir Abertawe yn gosod her i'r staff gorfodi oherwydd maint yr ardal ddaearyddol.

3.2 Mae gweithrediadau parcio yn ardal Dinas Abertawe yn cynnwys gorfodi parthau parcio a reolir megis sydd yng nghanol y ddinas, St Thomas, Sandfields, a'r Parc Menter, nifer o gynlluniau parcio trwyddedau preswylwyr, cilfachau amser cyfyngedig, cilfachau llwytho, cilfachau anabl, cilfachau talu ac arddangos a nifer o gyfyngiadau llinellau melyn sengl a dwbl.

3.3 Ym mis Ionawr 2015 cyflwynodd Cyngor Abertawe Gerbyd Gorfodi Camera Teledu Cylch Cyfyng i helpu lle nad yw dulliau traddodiadol o orfodi ar droed wedi bod yn effeithiol mewn bodloni ein nod o leihau tramgwyddau parcio er mwyn gwella diogelwch y ffyrdd a lleihau tagfeydd. Cyn cyflwyno'r cerbyd, cynhaliwyd ymgyrch gyhoeddusrwydd eang a oedd yn cynnwys dosbarthu taflenni i bob disgybl ysgol.

3.4 Yn ystod y cyfnod adrodd cyflwynwyd cyfanswm o 15,417 o Hysbysiadau Tâl Cosb ar y stryd gan Swyddogion Gorfodi Sifil oedd yn patrolio ar droed. Mae

Tabl 2 yn nodi'r gwahanol dramgwyddau wedi'u rhannu'n ôl y tramgwyddau cyfradd uwch (£70) a'r tramgwyddau cyfradd is (£50).

**Tabl 2**

| Cod y Tramgwydd | Disgrifiad o'r Tramgwydd | Nifer y HTC a gyflwynwyd |
|---|---|---|
| **Ar y Stryd – Cyfradd Uwch** | | |
| 01 | Parcio mewn stryd gyfyngedig | 2,551 |
| 02 | Llwytho mewn stryd gyfyngedig | 1,214 |
| 06 | Parcio heb arddangos tocyn talu ac arddangos neu daleb ddilys yn glir | 222 |
| 12 | Parcio mewn lle parcio i drigolion | 4,162 |
| 14 | Parcio mewn lle gwefru cerbyd trydan | 1 |
| 16 | Parcio mewn lle sydd angen trwydded | 69 |
| 21 | Parcio mewn cilfach a waharddwyd | 1 |
| 23 | Parcio mewn lle/ardal parcio na ddynodwyd ar gyfer y dosbarth hwnnw o gerbyd | 48 |
| 25 | Parcio mewn man llwytho | 2,091 |
| 26 | Parcio mwy na 50cm o ymyl y ffordd ac o fewn Ardal Gorfodi Arbennig (AGA) | 118 |
| 27 | Parcio ger palmant wedi'i ostwng o fewn AGA | 276 |
| 40 | Parcio mewn lle parcio wedi'i ddynodi ar gyfer person anabl | 757 |
| 41 | Parcio mewn lle parcio wedi'i ddynodi ar gyfer cerbydau diplomyddol | 1 |
| 42 | Parcio mewn lle parcio wedi'i ddynodi ar gyfer cerbydau'r heddlu | 1 |
| 45 | Parcio ar safle tacsis | 254 |
| 46 | Parcio ar glirffordd | 6 |
| 47 | Stopio ar safle/arhosfan bws cyfyngedig | 68 |

| | | |
|---|---|---|
| 48 | Stopio mewn ardal gyfyngedig y tu allan i ysgol | 9 |
| 99 | Stopio ar groesfan i gerddwyr | 55 |
| | **Cyfanswm** | **11,904** |
| | | |
| **Ar y Stryd – Cyfradd Is** | | |
| 04 | Parcio mewn cilfach wedi ei reoli gan gloc parcio pan nodir amser cosb ar y cloc | 1 |
| 05 | Parcio ar ôl i'r amser y talwyd amdano ddod i ben | 33 |
| 08 | Parcio wrth gloc parcio sydd wedi torri yn ystod oriau cyfyngedig | 1 |
| 22 | Ail barcio yn yr un lle/parth parcio oddi fewn awr ar ôl gadael | 174 |
| 24 | Heb barcio'n gywir | 117 |
| 30 | Parcio yn hirach nag a ganiateir | 3,187 |
| 63 | Parcio gyda'r injan yn rhedeg | 0 |
| | **Cyfanswm** | **3,513** |
| | | |
| **Cyfradd Uwch ac Is Ar y Stryd** | **Prif Gyfanswm** | **15,417** |

3.5 Hysbysiadau Tâl Cosb a gyflwynwyd drwy'r post lle nad oedd modd ei gyflwyno i'r cerbyd adeg y tramgwydd h.y. cerbyd yn gyrru i ffwrdd

**Tabl 3**

| **Cod y Tramgwydd** | **Disgrifiad o'r Tramgwydd** | **Nifer y HTC a gyflwynwyd** |
|---|---|---|
| **Cyfradd Uwch – Oddi Ar y Stryd** | | |
| **70** | Parcio mewn ardal llwytho | 1 |
| **81** | Parcio mewn ardal gyfyngedig | 1 |
| **87** | Parcio mewn lle parcio ar gyfer person anabl | 2 |
| | **Cyfanswm y Categori** | **4** |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfradd Is – Oddi Ar y Stryd** | | |
| **83** | Parcio mewn maes parcio heb arddangos tocyn talu ac arddangos, daleb neu gloc parcio dilys yn glir | 2 |
| | **Cyfanswm y Categori** | **2** |
| | | |
| **Cyfradd Uwch – Ar y Stryd** | | |
| **01** | Parcio mewn stryd gyfyngedig | 9 |
| **02** | Llwytho mewn stryd gyfyngedig | 32 |
| **06** | Parcio heb arddangos tocyn talu ac arddangos neu daleb ddilys yn glir | 2 |
| **12** | Parcio mewn lle parcio i drigolion | 1 |
| **16** | Parcio mewn lle sydd angen trwydded | 1 |
| **25** | Parcio mewn man llwytho | 6 |
| **27** | Parcio ger palmant wedi'i ostwng o fewn AGA | 2 |
| **40** | Parcio mewn lle parcio wedi'i ddynodi ar gyfer person anabl | 3 |
| **45** | Parcio ar safle tacsis | 4 |
| **47** | Stopio ar safle/arhosfan bws cyfyngedig | 3 |
| **99** | Stopio ar groesfan i gerddwyr | 7 |
| | | |
| | **Cyfanswm y Categori** | **70** |
| **Cyfradd Is – Ar y Stryd** | | |
| **24** | Heb barcio'n gywir | 2 |
| **30** | Parcio yn hirach nag a ganiateir | 10 |
| | **Cyfanswm y Categori** | **12** |
| | | |
| **Cyfradd Uwch ac Is Oddi Ar y Stryd ac Ar y Stryd** | **Cyfanswm yr Hysbysiadau Tâl Cosb a gyflwynwyd drwy'r post** | **88** |

3.6 Hysbysiadau Tâl Cosb a gyflwynwyd gan y Car Camerâu Teledu Cylch Cyfyng.

**Tabl 4**

| Cod y Tramgwydd | Disgrifiad o'r Tramgwydd | Nifer y HTC a gyflwynwyd |
|---|---|---|
| 02J | Llwytho mewn stryd gyfyngedig | 2,649 |
| 45J | Parcio ar safle tacsis | 573 |
| 46J | Parcio ar glirffordd | 140 |
| 47J | Stopio ar safle/arhosfan bws cyfyngedig | 715 |
| 48J | Stopio mewn ardal gyfyngedig y tu allan i ysgol | 270 |
| 99J | Stopio ar groesfan i gerddwyr | 479 |
| | **Cyfanswm yr Hysbysiadau Tâl Cosb a gyflwynwyd gan y Car Camerâu** | **4,826** |
| | | |

## 4. Crynodeb o'r holl Hysbysiadau Tâl Cosb a gyflwynwyd

**Tabl 5**

| Blwyddyn Ariannol | Oddi Ar y Stryd Cyfradd Uwch | Oddi Ar y Stryd Cyfradd Is | Ar y Stryd Cyfradd Uwch | Ar y Stryd Cyfradd Is | Oddi Ar y Stryd Cyfradd Uwch Drwy'r Post | Oddi Ar y Stryd Cyfradd Is Drwy'r Post | Ar y Stryd Cyfradd Uwch Drwy'r Post | Ar y Stryd Cyfradd Is Drwy'r Post | Teledu Cylch Cyfyng | Cyfanswm yr HTC a gyflwynwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2020/21 | 901 | 5,364 | 11,904 | 3,513 | 4 | 2 | 70 | 12 | 4,826 | 26,596 |
| | | | | | | | | | | |

**Uwch = Tramgwyddau £70          Is = Tramgwyddau £50**

## 5. Staffio

5.1 Bu'r staffio yn ystod 2020/21 fel a ganlyn: -

1 Rheolwr Gwasanaethau Parcio
1 Rheolwr Meysydd Parcio
1 Rheolwr Gorfodi Parcio Sifil
1 Goruchwylydd Meysydd Parcio
1 Goruchwylydd Gorfodi Sifil
1 Goruchwylydd Swyddfa Gefn
1 Uwch Swyddog Meysydd Parcio
3 Uwch Swyddog Gorfodi Sifil
3 Ariannydd
21 Swyddog Gorfodi Sifil (SGS)

6 Gwasanaethydd Parcio a Theithio
7 Staff Prosesu/Swyddfa Gefn HTC (Hysbysiadau Tâl Cosb) (FTE)

## 6. Gohebiaeth

6.1 Hawl pob gyrrwr neu berchennog yw herio dilysrwydd Hysbysiad Tâl Cosb (HTC) neu gyflwyno rhesymau lliniaru sy'n nodi pam na ddylid talu'r HTC. Mae'r broses herio/apelio wedi'i nodi mewn deddfwriaeth ac mae gwybodaeth sy'n ymwneud â'r broses hon wedi'i chynnwys ar wefan y Cyngor – http://www.abertawe.gov.uk/parcio. Mae'r wefan yn cynnwys manylion am y seiliau statudol dros ganslo ac yn nodi'r lliniaru a'r dystiolaeth sydd eu hangen er mwyn caniatáu pob cyfle i'r apelydd gyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol.

6.2 Mae yna ganllawiau clir ac addysgiadol i sicrhau bod tîm Swyddfa Gefn y Cyngor yn delio â'r holl ohebiaeth sy'n dod i law mewn modd cyson a thryloyw.

6.3 Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried ac ymateb i ohebiaeth yn unrhyw gam o'r broses ac mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn am ddanfon ymatebion yn amserol. Er mai'r gofyniad cyfreithiol yw darparu ymateb o fewn 56 diwrnod, nod y Cyngor yw ymateb i bob her o fewn 14 diwrnod. Yn anffodus, oherwydd nifer uchel yr apelau a dderbynnir ar brydiau gall gymryd yn hirach na 14 diwrnod i ymateb.

6.3 Yn ystod y cyfnod adrodd, cofnodwyd gan ein system rheoli achosion fod cyfanswm o 12,306 o eitemau gohebiaeth, a oedd yn ymwneud yn benodol â Gorfodi Parcio Sifil (GPS), wedi dod i law. Mae'r manylion i'w gweld yn Nhabl 6 isod.

**Tabl 6**

| **Ystadegau am yr Ohebiaeth a Ddaeth i Mewn, fesul Math (yr Hysbysiad)** | **Dinas a Sir Abertawe** |
|---|---|
| **Yn Flynyddol Rhwng 01/04/2020 a 31/03/2021** | |
| **Math** | **Nifer fesul Math** |
| GPS – Daeth i Mewn – Canlyniad y TCT Wedi Dod i Law | 2 |
| GPS – Daeth i Mewn – Tystiolaeth Ychwanegol | 64 |
| GPS – Daeth i Mewn - Cwyn | 40 |
| GPS – Daeth i Mewn – E-bost | 1,413 |
| GPS – Daeth i Mewn – E-bost - Cyffredinol | 26 |
| GPS – Daeth i Mewn – Dogfen Gyffredinol | 170 |
| GPS – Daeth i Mewn - Dogfen Gyffredinol – Nid oedd angen ymateb | 441 |
| GPS – Daeth i Mewn – Datganiad Tyst Mewn Pryd gyda Dogfen Ddirymu | 87 |
| GPS – Daeth i Mewn - N244 A DDAETH I MEWN | 4 |
| GPS – Daeth i Mewn – Cais am Gynllun Talu | 256 |
| GPS – Daeth i Mewn – Ymholiad HTC | 3 |
| GPS – Daeth i Mewn - Ôl Llys Sirol | 612 |
| GPS – Daeth i Mewn - Ôl HIP (Hysbysiad i'r Perchennog) | 1,612 |
| GPS – Daeth i Mewn – Apêl Cyn HIP | 1,357 |

| | |
|---|---|
| GPS – Daeth i Mewn – Cais am Ad-daliad | 8 |
| GPS – Daeth i Mewn – Canlyniad CGT Wedi Dod i Law | 156 |
| GPS – Daeth i Mewn – Apêl TCT | 67 |
| GPS – Daeth i Mewn - Datganiad Achos Allan o Amser (AOA) Cyn y Beili | 14 |
| GPS – Daeth i Mewn - Datganiad Achos AOA Gyda'r Beili | 154 |
| Daeth i Mewn – Hysbysiad Lle i Anadlu | 31 |
| Daeth i Mewn – Trefniant Gwirfoddol Unigol - Cyffredinol | 10 |
| Daeth i Mewn – Ar-lein - Ôl HIP - Sylw | 866 |
| Daeth i Mewn – Ar-lein – Cyn HIP - Herio | 3,484 |
| Daeth i Mewn – Ateb VQ615 ddaeth i law oddi wrth y DVLA | 3 |
| Daeth i Mewn – Ateb VQ616 ddaeth i law oddi wrth y DVLA | 26 |
| Dogfen a Ddaeth i Mewn – Achos a Ddychwelwyd – Andrew James Enforcement | 215 |
| Dogfen a Ddaeth i Mewn – Achos a Ddychwelwyd - Excel | 1,155 |
| Danfonwyd – Ffurflen VQ616, y gwnaed cais amdani, gyda'r DVLA | 30 |
| **Cyfanswm yr Adroddiad:** | **12,306** |
| | |

6.4 Danfonwyd 27,254 darn o ohebiaeth yn ystod y cyfnod adrodd gyda'r manylion fel a ganlyn yn Nhabl 7.

## Tabl 7

| **Ystadegau am yr Ohebiaeth a Ddanfonwyd, fesul Math (yr Hysbysiad)** | **Dinas a Sir Abertawe** |
|---|---|
| **Yn Flynyddol Rhwng 01/04/2020 a 31/03/2021** | |
| **Math** | **Nifer fesul Math** |
| Lonydd Bysiau – Llys Sirol | 1 |
| Teledu Cylch Cyfyng (TCC) - Derbyn – Wedi'i Hurio | 32 |
| TCC - Derbyn – Wedi'i Hurio – Dim Dogfennau | 4 |
| TCC – Tystysgrif Codi Tâl | 1,113 |
| TCC - HTC | 5,047 |
| TCC – Ôl Llys Sirol – Gwrthod Cyffredinol | 55 |
| TCC – Gwrthodiad | 7 |
| TCC - Gwrthodiad – Cynigiwyd Disgownt | 307 |
| TCC - Gwrthodiad – Angen ei Dalu'n Llawn | 7 |
| TCC – Hysbysiad Rhybudd | 1 |
| GPS – Derbyn y Wybodaeth a Ddarparwyd – Ystyriaethau Iechyd Meddwl | 1 |
| GPS – Llythyr Cydnabyddiaeth | 322 |
| GPS – Llythyr Gwag | 19 |
| GPS – Pecyn Achos | 24 |
| GPS – Llythyr Gohirio Taliad | 1 |
| GPS – Her Bellach – Dim Camau Pellach | 22 |
| GPS – Daeth i Mewn – Tystiolaeth Gynorthwyol | 4 |
| GPS – Mewn Pryd – Llythyr 14 Diwrnod | 51 |
| GPS – Datganiad Tyst Hwyr | 126 |
| GPS – Dim Camau Pellach (Cyn-Camau) | 3 |
| GPS – Llythyr Nad ydynt bellach yn byw wrth y cyfeiriad | 42 |
| GPS – Dim Tâl | 1 |
| GPS - Danfonwyd – Ateb E-bost | 86 |
| GPS - Danfonwyd – Cynllun Talu Wedi'i Gytuno | 132 |

| | |
|---|---|
| GPS - Danfonwyd – Ymateb i apêl HTC | 2 |
| GPS - Danfonwyd – Ymateb i Gwyn | 1 |
| GPS - Danfonwyd – Llythyr Tandaliad - Covid - Ôl TE3 TE9 | 2 |
| GPS - Danfonwyd Dogfen | 83 |
| GPS - Danfonwyd E-bost | 1,457 |
| GPS - Danfonwyd Llythyr Gwag Cyffredinol | 2 |
| GPS - Danfonwyd Llythyr Tandaliad | 29 |
| GPS - Danfonwyd Llythyr Adennill Tandaliad | 1 |
| GPS – Cynllun Talu – Heb ei Dderbyn | 1 |
| GPS - Ôl Llys Sirol – Derbyn Cyffredinol | 39 |
| GPS - Ôl Llys Sirol – Gwrthod Cyffredinol | 185 |
| GPS - Ôl HIP - Derbyn – Unrhyw Benderfyniad Arall | 380 |
| GPS - Ôl HIP - Derbyn – Gwall SGS | 36 |
| GPS - Ôl HIP - Derbyn – Ni Digwyddodd y Tramgwydd | 1 |
| GPS - Ôl HIP - Derbyn – Gwall Wedi Digwydd | 1 |
| GPS - Ôl HIP - Derbyn – Cwmni Hurio | 1 |
| GPS - Ôl HIP - Derbyn – Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Annilys | 1 |
| GPS - Ôl HIP - Derbyn – Nid y nhw oedd y Ceidwad – Dim Dogfennau | 63 |
| GPS - Ôl HIP - Derbyn - Nid y nhw oedd y Ceidwad – Gyda Dogfennau | 33 |
| GPS - Ôl HIP - Derbyn – Wedi'i Hurio | 188 |
| GPS - Ôl HIP - Derbyn – Wedi'i Hurio – Dim Dogfennau | 387 |
| GPS - Ôl HIP - Derbyn – Wedi Talu'n Llawn | 3 |
| GPS - Ôl HIP - Derbyn – Amhriodoldeb Gweithdrefnol | 1 |
| GPS - Ôl HIP - Cod 01 - Gwrthod – Llinell Felen Sengl (LLFS) | 1 |
| GPS - Ôl HIP - Cod 02 - Derbyn | 1 |
| GPS - Ôl HIP - Cod 12 - Gwrthod | 1 |
| GPS - Ôl HIP - Cod 25 - Gwrthod | 1 |
| GPS - Ôl HIP - Cod 27 - Gwrthod | 1 |
| GPS - Ôl HIP - Cod 40 - Derbyn | 1 |
| GPS - Ôl HIP - Cod 83 - Derbyn | 1 |
| GPS - Ôl HIP - Gwrthod | 209 |
| GPS - Ôl HIP - Gwrthod – Cynigiwyd Disgownt | 244 |
| GPS - Cyn HIP - Derbyn – Wedi'i Osod ar y Cerbyd Anghywir | 1 |
| GPS - Cyn HIP - Derbyn – Unrhyw Benderfyniad Arall | 140 |
| GPS - Cyn HIP - Derbyn – Cyflwynwyd Tystiolaeth Bathodyn Glas | 2 |
| GPS - Cyn HIP - Derbyn – Gwall SGS | 43 |
| GPS - Cyn HIP - Derbyn – Cyflwynwyd Tocyn Parcio a Theithio â'i wyneb i lawr | 4 |
| GPS - Cyn HIP - Derbyn – Cyflwynwyd Trwydded LC2 | 1 |
| GPS - Cyn HIP - Derbyn – Wedi Talu'n Llawn | 1 |
| GPS - Cyn HIP - Derbyn - Problem gydag Arwyddion neu Linellau | 1 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 01 - LLFDD Derbyn | 49 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 01 - LLFS Derbyn | 14 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 01 LLFDD - Gwrthod | 201 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 01 LLFS - Gwrthod | 51 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 02 - LLFDD Stribed Palmant - Derbyn | 20 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 02 - LLFDD Stribed Palmant - Gwrthod | 90 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 02 - LLFS Stribed Palmant - Derbyn | 6 |

| | |
|---|---|
| GPS - Cyn HIP - Cod 02 - LLFS Stribed Palmant - Gwrthod | 6 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 05 - Derbyn Yr Apêl | 1 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 06 - Derbyn Yr Apêl | 10 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 06 - Gwrthod Yr Apêl | 13 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 12 - Derbyn | 292 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 12 - Gwrthod | 656 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 16 - Derbyn Yr Apêl | 4 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 16 - Gwrthod Yr Apêl | 5 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 22 - Derbyn Yr Apêl | 9 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 22 - Gwrthod Yr Apêl | 16 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 24 - Derbyn Yr Apêl | 3 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 24 - Gwrthod Yr Apêl | 12 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 25 - Derbyn | 81 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 25 - Gwrthod | 188 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 26 - Derbyn Yr Apêl | 4 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 26 - Gwrthod Yr Apêl | 13 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 27 - Derbyn Yr Apêl | 5 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 27 - Gwrthod Yr Apêl | 37 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 30 - Derbyn Yr Apêl | 83 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 30 - Gwrthod Yr Apêl | 301 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 40 - Derbyn Yr Apêl | 39 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 40 - Gwrthod Yr Apêl | 61 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 45 - Derbyn Yr Apêl | 4 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 45 - Gwrthod Yr Apêl | 22 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 46 - Gwrthod | 2 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 82 - Derbyn Yr Apêl | 28 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 82 - Gwrthod Yr Apêl | 43 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 83 - Derbyn | 476 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 83 - Gwrthod | 378 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 83 - Gwrthod – Canol Dinesig – Dim Tocyn Talu ac Arddangos | 66 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 83 - Gwrthod – Tocyn â'i Wyneb i Lawr | 5 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 85 - Derbyn Yr Apêl | 5 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 85 - Gwrthod Yr Apêl | 23 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 86 - Derbyn Yr Apêl | 10 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 86 - Gwrthod Yr Apêl | 113 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 87 - Derbyn Yr Apêl | 46 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 87 - Gwrthod Yr Apêl | 66 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 99 - Derbyn | 1 |
| GPS - Cyn HIP - Cod 99 - Gwrthod | 3 |
| GPS - Cyn HIP - Gwrthod | 213 |
| GPS - Cyn HIP - Gwrthod – Parth a Reolir | 13 |
| GPS - Cyn HIP - Gwrthod - Parth Parcio a Reolir Sandfields 2018 | 4 |
| GPS - Cyn HIP - Gwrthod – Maes Parcio Salubrious Place | 2 |
| GPS – Gofyn am Dystysgrif Farwolaeth | 1 |
| GPS - TE3 TE9 | 3,254 |
| GPS - CGT (Canolfan Gorfodi Traffig) - Derbyn – Allan o Amser (AOA) | 4 |
| GPS - CGT - Gwrthod - AOA | 126 |
| GPS - CGT - Gwrthod - AOA 14 Diwrnod | 120 |
| GPS – CGT i'r TCT – Caewyd neu Ganslwyd | 3 |
| GPS - CGT i'r TCT - Gorfodi | 3 |

| | |
|---|---|
| GPS - TCT – Gwrthodwyd yr Achos | 7 |
| Cymru – Tystysgrif Codi Tâl | 3,393 |
| Cymru – Hysbysiad i'r Perchennog | 5,505 |
| Cymru - Rheoliad 10 HTC HIP | 87 |
| **Cyfanswm yr Adroddiad:** | **27,254** |
| | |

6.5 Mae Tabl 8 yn dangos Heriau a Sylwadau (apelau) a wnaed o fewn y broses apelio 56 diwrnod arferol (dylid nodi bod y crynodeb isod yn dangos canlyniad achosion unigol a gallai fod sawl eitem gohebiaeth yn gysylltiedig â phob achos). Mae Tabl 6 yn dangos dadansoddiad o'r heriau anffurfiol a'r sylwadau ffurfiol.

**Ystadegau Apelio**

**Tabl 8**

| | **Derbyniwyd** | **Gwrthodwyd** |
|---|---|---|
| **Heriau Anffurfiol** (Cyn cam apelio Hysbysiad i'r Perchennog) | 1,382 | 1,586 |
| **Sylwadau Ffurfiol** (Ôl Cam Hysbysiad i'r Perchennog) | 1,134 | 778 |

6.6 Y tu hwnt i'r broses apelio arferol derbyniwyd 2,431 o lythyrau (manylion yn Nhabl 6) ar ôl danfon y llythyr Tystysgrif Tâl.

6.7 Os gwrthodir Sylwad Ffurfiol gall y modurwr wedyn symud ei achos ymlaen i'r Tribiwnlys Cosb Traffig sy'n wasanaeth dyfarnu annibynnol rhad ac am ddim. Yn ystod y cyfnod adrodd cyfeiriwyd 131 o ffeiliau achos at y Tribiwnlys. Mae paratoi pob ffeil tystiolaeth yn cymryd llawer iawn o amser gan fod angen adolygu a gwirio'r holl ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r achos. Rhaid paratoi cyflwyniad llawn yn nodi'r dadleuon sy'n cefnogi achos y Cyngor. Derbyniwyd 49 o achosion gan y dyfarnwr a gwrthodwyd 27 gyda 49 o achosion heb eu herio gan y Cyngor ar ôl adolygu'r amgylchiadau ac/neu ystyried unrhyw dystiolaeth liniaru ychwanegol a ddarparwyd.

6.8 Rhoddwyd y gorau i 2,595 o achosion y 26,596 Hysbysiad Tâl Cosb a gyflwynwyd, naill ai oherwydd derbyn apêl neu am nad oedd modd bwrw ymlaen â'r achos. Mae hyn yn cynrychioli 9.75% ac mae o fewn y 20% y cynghorwyd i ni yn wreiddiol na fyddai modd eu hadennill. Er enghraifft, mae'n bosib na fydd bwrw ymlaen ag achos oherwydd nad oedd modd canfod perchennog y cerbyd neu oherwydd bod yr Asiantaeth Gorfodi wedi dychwelyd yr achos atom am nad oeddent yn gallu sicrhau taliad.

6.9 Isod mae tabl sy'n darparu ystadegau ar nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod blwyddyn gyllideb 2020/2021, mae'r ffigurau isod yn seiliedig ar

gyfartaledd, gan fod ystadegau ar gwynion wedi cael eu cofnodi o fis Ionawr 2020 ymlaen yn unig oherwydd y pandemig.

**Ystadegau Cwynion ar gyfer Gwasanaethau Parcio**

**Tabl 9**

| Adran | Nifer y Cwynion a Ddaeth i Law |
|---|---|
| Meysydd Parcio | 16 |
| Gorfodi Parcio Sifil | 228 |

## 7. Adroddiad Ariannol

7.1 Mae'r gyllideb Gwasanaethau Parcio wedi'i rhannu dros 3 maes cyfrif ac mae'r incwm a'r gwariant ar gyfer 2020/21 fel a ganlyn: -

**Gwariant Gwirioneddol Gwasanaethau Parcio 2020/21**

**Tabl 10**

| | Meysydd Parcio | Gorfodi Parcio Sifil GPS | Parcio a Theithio |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| Gweithwyr cyflogedig | 443,793 | 1,129,639 | 87,252 |
| Adeiladau | 80,510 | -2,270 | -4,112 |
| Trafnidiaeth | 38,275 | 10,657 | 0 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 373,785 | 199,761 | -5,717 |
| Taliadau Trydydd Parti | -19,903 | -95 | 83,433 |
| Debydau Mewnol | 7,854 | 0 | 0 |
| Cyfanswm Gwariant | 924,314 | 1,337,693 | 160,857 |
| | | | |
| Cyfanswm Incwm | 3,998,883 | 1,771,652 | -147,915 |
| Cyfanswm Gwarged (Diffyg) | 3,074,569 | 433,959 | (12,942) |

7.2 Derbyniodd cyfrif Gorfodi Parcio Sifil incwm oddi wrth daliadau Talu ac Arddangos ar y stryd a Hysbysiadau Tâl Cosb. Mae Tabl 3 dros y tudalen yn nodi'r incwm o'r ffynonellau hyn. Mae'r incwm sy'n deillio o daliadau ar y stryd ac o orfodi ar y stryd ac oddi ar y stryd yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a osodir gan Adran 55 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, fel y'i diwygiwyd o fis Hydref 2002 gan adran 95 Deddf Rheoli Traffig 2004 a Rheoliad 26

Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013.

7.3 Mae is-adran 2 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 Road yn datgan;

*(2) Ar ddiwedd pob blwyddyn gyllideb bydd unrhyw ddiffyg yn y cyfrif yn cael ei wneud yn iawn allan o'r [gronfa gyffredinol] [neu, yng Nghymru, cronfa'r Cyngor], ac (yn ddarostyngedig i is-adran (3) isod) bydd unrhyw warged yn cael ei gymhwyso at yr holl ddibenion, neu unrhyw un ohonynt, sydd wedi'u nodi yn is-adran (4) isod, a chyn belled ag nad yw'n cael ei gymhwyso felly, caiff ei adfeddu i gyflawni prosiect penodol sydd o fewn y dibenion hynny a'i gario ymlaen nes caiff ei gymhwyso i'w gyflawni.*

7.4 Mae'r rhan hon o'r ddeddfwriaeth yn clustnodi unrhyw warged at ddibenion penodol gan gynnwys darparu neu gynnal a chadw parcio oddi ar y stryd, gwelliannau i'r briffordd a materion amgylcheddol.

**Tabl 11**

| Ffynhonnell Incwm | Incwm |
|---|---|
| **Hysbysiadau Tâl Cosb** | ***1,098,125.24*** |
| **Talu ac Arddangos Ar y Stryd** | ***8,451.09*** |
| **Cyfanswm** | ***1,106,576.33*** |

7.5 Mae cyfanswm y gwariant sy'n gysylltiedig â'r gweithrediadau hyn, sy'n gwrthbwyso incwm oddi wrth daliadau ar y stryd a thaliadau hysbysiadau tâl cosb, yn £1,337,693 (dyma'r Cyfanswm Gwariant GPS a ddangosir yn Nhabl 10).

7.6 Adroddwyd gwarged o £587,770 (fel y dangosir yn Nhabl 7, Cyfanswm Gwarged GPS).

7.7 Fel y nodwyd ym mharagraff 7.3 rhaid defnyddio unrhyw warged at ddibenion penodol. Yn ystod y cyfnod adrodd, cofnodwyd gan y ddau gynllun Parcio a Theithio a weithredir gan y Cyngor colled o £12,942 (fel y dangosir yn Nhabl 10 Cyfanswm Gwarged (Diffyg) Parcio a Theithio).

7.7 Mae meysydd Parcio a Theithio yn cynnig opsiwn trafnidiaeth gynaliadwy i fodurwyr sy'n ymweld â'r ddinas naill ai'n rheolaidd neu'n untro. Mae'r gostyngiad mewn llif traffig i Ganol y Ddinas a ddaw yn sgil hynny nid yn unig yn lleihau tagfeydd ond mae hefyd yn helpu i leihau lefelau llygredd, sy'n anodd eu rheoli ar y ffyrdd prifwythiennol i mewn ac allan o Ganol y Ddinas. Mae gwasanaethau Parcio a Theithio hefyd yn cefnogi'r gymuned fusnes drwy ddarparu parcio fforddiadwy ar gyfer gweithwyr a siopwyr canol y ddinas. Mae angen felly sicrhau parhau i weithredu'r gwasanaethau gwerthfawr hyn.

7.8 Felly, yn ystod y flwyddyn bandemig hon bu'r gyllideb Gorfodi Parcio Sifil yn cofnodi colled flynyddol o £231,116.67 (fel y dangosir yn Nhabl 7, Cyfanswm Gwarged GPS).